Cynhaliwyd Eisteddfod y Cymoedd yn neuadd Ysgol Gyfun Cwm Rhymni, safle'r Gwyndy, Caerffili ar nos Wener 20.10.23. Roedd hi'n braf gweld y neuadd dan ei sang wrth i ni groesawu'r cystadleuwyr cynradd ar ddechrau'r noson. Cystadlodd 7 côr gwahanol a braf oedd gweld y pleser ar wynebau'r disgyblion yn ogystal ag ar wynebau'r gynulleidfa. Amcangyfrifwyd fod tua 200 o blant wedi troedio'r llwyfan yn y gystadleuaeth hon yn unig! Bu'r cystadlu'n frwd a safonol drwy'r nos gyda rhywbeth at ddant pawb, heb anghofio'r cystadleuwyr yn yr adran lenyddol a ffotograffiaeth hefyd. Un o bleserau mwyaf y noson oedd gweld diwgyblion ail iaith yn mwynhau llefaru ar y llwyfan yn hyderus a llwyddiannus. Cafwyd awyrgylch fyrlymus y tu allan i'r neuadd wrth i stondinau lleol ddenu'r llygad a'r siopwyr. Mwynhawyd y danteithion blasus yn y caffi a ddarparwyd gan Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yr ysgol ac roedd y bar yn helpu i dorri syched ar nos Wener tra'n gwylio'r sgrin yn dangos y cystadlu mewn awyrgylch mwy cymdeithasol. I goroni'r cyfan, roedd hyd yn oed y rygbi yn cael ei ddarlledu ar sgrin dawel yn y cefndir! Does ryfedd fod y corau oedolion wedi cyrraedd yn gynnar i fwynhau noson yn yr eisteddfod! Diolchwn yn fawr i bawb a gystadlodd, a gefnogodd, a feirniadodd ac a chwareodd ran wrth drefnu a gwireddu'r noson. Edrychwn ymlaen yn eiddgar at 'steddfod flwyddyn nesaf.

## Canlyniadau

| Cystadleuaeth | 1af | 2il | 3ydd |
|---|---|---|---|
| Unawd Bl 2-4 | Elan Spanswick | Betsan Rowlands | Steffan Jones |
| Llefaru Bl 5-6 | Osian Jones | Dewi Rowlands | |
| Unawd Bl 5-6 | Osian Jones | Dewi Rowlands | Elin Anastasi<br>Sara Josesph |
| Llefaru Bl 2-4 | Betsan Rowlands | Steffan Jones | |
| Unawd offerynnol Bl 6 ac iau | Dewi Rowlands | Elis Dickenson | |
| Llefaru Unigol I Ddysgwyr Cynradd | Jack Hennessey | Theo Hughes | |
| Grwp Dawnsio Cynradd | Ysgol Gymraeg y Castell | | |
| Cor Bl 6 ac Iau | Ysgol Garth Olwg | Ysgol y Fenni | Ysgol Cwm Gwyddon |
| **Cyflwyno Tlws Er Cof am Anne Evans** | Ysgol Garth Olwg | | |
| **Perfformiad mwyaf addawol cynradd** | Osian Jones | | |
| Llefaru Unigol I Ddysgwyr Uwchradd | Ollie Casey | Ieuan Benbow | |
| Unawd Bl 7-9 | Mathew Bill | Caitlin Rogers | Beca Jones<br>Catrin Evans |
| Grwp Llefaru I Dysgwyr Uwchradd | Grwp Gurnos - Penydre | Grwp Llywellyn - Penydre | Grwp Morlais - Penydre |
| Dawnsio Grwp Gwerin Uwchradd | Beca Fflur George | Mari Fflur Thomas | |
| Unawd offerynnol Uwchradd | Beca Jones | Megan Bill | Bethan Paull |
| Llefaru unigol oedran uwchradd | Mari Fflur Thomas | Megan Godfrey | Beca Jones |
| Cor Bl 7-9 | Ysgol Gyfun Cwm Rhymni | | |
| Unawd Bl 10-13 | Scarlett Humphries | Jude Evans | Meleri Godfrey |
| Cor Bl 10-13 | Ysgol Gyfun Cwm Rhymni | | |
| Grwp Dawnsio Gwerin Agored | Grwp Ysgafndroed | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ensemble Lleisiol | Cwm Rhondda | Garth Olwg | |
| Grwp llefaru agored | Cwm Rhondda | Lleisiau Rhymni | |
| Unawd sioe gerdd agored | Sophie Sidoli Price | | |
| Unawd Alaw Werin Agored | Carwyn Wycherley | | |
| Unawd canu emyn | Lynwen John | | |
| **Perfformiad mwyaf addawol uwchradd** | Matthew Bill | | |
| Cor Agored | Cordydd | Cor Meibion Taf | Cor Aelwyd Cwm Rhondda |
| **Tlws Dawnsio Trwy'r Cwm** | Beca George | | |
| Llenyddiaeth cynradd | Lleucu Real | | |
| Llenyddiaeth Bl 7-9 | Ella Fitzell | Safiya Islam | Isabelle Green |
| Llenyddiaeth Bl 10-13 | Siwan Jones | Mai Webley | Tomas Mills |
| Limerig | Dosbarth Mr Mac - Cwm Rhymni | Dosbarth Mr Mac - Cwm Rhymni | Dosbarth Mr Mac - Cwm Rhymni |
| Cerdd | Gaenor Jones | Rose Hurford | Elise Pollock |
| Englyn | Eirian Dafydd | | |
| Cystadleuaeth Lenyddol I Ddysgwyr | Katie Kozak | Kenzie Oaten | Susie Wakeman |
| Cyfres o luniau - Tymhorau | Gaenor Jones | Gaenor Jones | Imogen Dickson |
| Llun unigol - Cynefin | Gaenor Jones | Gwydion Ifan Jones | Lleucu Haf Thomas |